
Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)
## Crynodeb o'r Bil

Mai 2024



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: @SeneddYmchwil
Ymchwil y Senedd: ymchwil.senedd.cymru
Tanysgrifiwch: Cylchlythyr

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)
## Crynodeb o'r Bil

Mai 2024


**Awdur:**
Josh Hayman

# Contents

**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Cipolwg ar y Bil ........ 3**

**3. Crynodeb o'r darpariaethau ........ 4**

Rhan 1 – Y Senedd a Gweinidogion Cymru ........ 4

Rhan 2 – Y system bleidleisio yn etholiadau cyffredinol y Senedd a dyrannu seddi ........ 5

Rhan 3 – Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ........ 7

Rhan 4 – Adolygu Ffiniau Etholaethau'r Senedd ........ 9

Rhan 5 – Adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc. a darpariaethau cyffredinol ........ 9

Atodlen 1 - Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 3 ........ 11

Atodlen 2 – Etholaethau'r Senedd ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2026 ........ 11

Atodlen 3 - Rhan newydd 3A o Ddeddf 2013: Adolygu Ffiniau Etholaethau'r Senedd ........ 13

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd **Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)** (y "Bil") ar 18 Medi 2023. Gwnaeth basio **trafodion Cyfnod 4** ar 8 Mai 2024.

Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol yw'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil.

Mae **memorandwm esboniadol y Bil** (diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2) yn datgan mai ei ddiben cyffredinol yw:

> [..] gwneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer, ac ar ran, pobl Cymru. Mae'r diben hwn yn adlewyrchu bwriad y Pwyllgor Diben Arbennig, a nodwyd yn ei adroddiad, i sicrhau "senedd gryfach i gynrychioli pobl Cymru".

Cyhoeddwyd **datganiad ysgrifenedig** gan y Cwnsler Cyffredinol ar 18 Medi 2023.

Wrth gyflwyno'r Bil, **dywedodd** y Cwnsler Cyffredinol:

> Mae'n rhoi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ni a phobl Cymru gyflawni'r newidiadau angenrheidiol i foderneiddio'r Senedd, gan adlewyrchu Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Senedd sy'n fwy effeithiol, sydd â'r gallu a'r cadernid i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif; Senedd fwy cynrychioliadol i wasanaethu pobl Cymru yn well.

Mae'r Bil yn bwrw ymlaen â'r rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed gan y **Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd**, a gyhoeddodd adroddiad ym mis Mai 2022. Gallwch ddarllen rhagor am gasgliadau'r Pwyllgor hwnnw yn yr **erthygl hon gan Ymchwil y Senedd**.

Ceir papur briffio manylach ar adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig **yma**, sydd hefyd yn rhoi trosolwg o adroddiadau y **Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad** (Tachwedd 2017) a'r **Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd** (Medi 2020).

## Y broses ddeddfwriaethol

Cyfeiriwyd y Bil at y Pwyllgor Biliau Diwygio i'w ystyried ac i adrodd ar yr egwyddorion cyffredinol. Gosododd y Pwyllgor ei **adroddiad** ar 19 Ionawr 2024, gan wneud 50 o argymhellion. Mae'r **Pwyllgor Cyllid** a'r **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** hefyd wedi cyflwyno adroddiad ar y Bil.

Cytunodd y Senedd ar egwyddorion cyffredinol y Bil ar 30 Ionawr 2024, a phasiwyd penderfyniad ariannol hefyd.

Cynhaliwyd **trafodion Cyfnod 2** y Bil, a ystyriwyd gan y Pwyllgor o'r Senedd Gyfan, ar 5 a 6 Mawrth 2024. Cyflwynwyd 126 o welliannau, derbyniwyd 67, tynnwyd saith yn ôl cyn y trafodion ac roedd 51 yn aflwyddiannus neu heb eu cynnig yn ystod y trafodion.

Cynhaliwyd **Cyfnod 3 ar 30 Ebrill 2024**, gyda 115 o welliannau wedi'u cyflwyno. Derbyniwyd 31 ohonynt ac roedd 84 yn aflwyddiannus neu heb eu cynnig yn ystod y trafodion.

Pasiodd y Bil ei **drafodion Cyfnod 4** ar 8 Mai 2024 o 43 pleidlais i 17. Gan fod y Llywydd wedi **penderfynu** bod darpariaethau yn y Bil yn ymwneud â 'phynciau gwarchodedig' yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, roedd y bleidlais yng nghyfnod 4 yn ddarostyngedig i ofyniad 'uwchfwyafrif' y pleidleisiodd o leiaf dwy ran o dair o'r Aelodau o blaid.

## Sut i ddefnyddio'r crynodeb hwn o'r Bil

Nid yw'r ddogfen hon yn grynodeb cynhwysfawr o bob agwedd ar y Bil. Mae i'w defnyddio'n electronig ac i gyfeirio at ragor o fanylion.

Yn yr adran crynodeb o'r darpariaethau, mae testun rhif yr adran (e.e. adran 1) yn cysylltu â'r adran berthnasol o'r Bil. Mae'r testun sy'n dilyn yn cynnwys linc i'r nodiadau esboniadol lle y ceir rhagor o fanylion.

# 2. Cipolwg ar y Bil

Mae 26 o adrannau yn y Bil, wedi eu trefnu'n bum rhan, ac mae tair Atodlen ynddo:

Rhan 1 – Y Senedd a Gweinidogion Cymru

Rhan 2 – Y System Bleidleisio yn Etholiadau Cyffredinol y Senedd a Dyrannu Seddi

Rhan 3 – Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Rhan 4 – Adolygu Ffiniau Etholaethau'r Senedd

Rhan 5 – Adolygu Gweithrediad y Ddeddf etc. a Darpariaethau Cyffredinol

Atodlen 1 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 3

Atodlen 2 - Etholaethau'r Senedd ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2026

Atodlen 3 - Rhan newydd 3A o Ddeddf 2013[1]

Mae'r Bil yn cynnwys pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i gynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru ymhellach, i newid y cworwm ar gyfer cyfarfodydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ac i weithredu penderfyniadau ynghylch adolygu ffiniau ac i ddiwygio'r cyfyngiadau ar wariant yr eir iddo ar ymgyrchu gan neu ar ran plaid wleidyddol yn ystod etholiad cyffredinol y Senedd.

Mae'r **Memorandwm Esboniadol** (diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2) yn cynnwys tablau sy'n nodi'r pwerau yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth a'r **gweithdrefnau craffu** y bydd y Senedd yn eu defnyddio i graffu arnynt. Mae'r **Datganiad o Fwriad Polisi** yn rhoi rhagor o fanylion am yr is-ddeddfwriaeth y gellir ei gwneud o dan y Bil.

1 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn cael ei hailenwi gan y Bil hwn yn Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013

# 3. Crynodeb o'r darpariaethau

## Rhan 1 – Y Senedd a Gweinidogion Cymru

### Nifer Aelodau'r Senedd ac etholaethau'r Senedd

Mae **adran 1** yn diwygio **adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006** ("Deddf 2006") i bennu y bydd **16 o etholaethau'r Senedd**, gyda chwe sedd ar gyfer pob etholaeth.

Mae **adran 2** yn diwygio **adran 2 o Ddeddf 2006** i ddarparu mai **etholaethau'r Senedd** fydd yr etholaethau a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran newydd 49J o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (fel y'i hailenwyd) (gweler Rhan 3 isod). Mae hefyd yn datgan mai etholaethau'r Senedd fydd y rhai y darperir ar eu cyfer mewn rheoliadau o dan baragraff 9 o Atodlen 2 i'r Bil hwn, hyd nes y bydd y set gyntaf o reoliadau a wneir o dan yr adran honno mewn grym.

Mae **adran 2(2)** yn **dileu is-adrannau segur** o Ddeddf System Bleidleisio ac Etholaethau Seneddol y DU 2011.

### Etholiadau cyffredinol cyffredin: pa mor aml

Mae **adran 3** yn diwygio **adran 3(1) o Ddeddf 2006** i newid **pa mor aml y cynhelir etholiadau cyffredinol cyffredin** i bob pedair blynedd yn hytrach na phump.

### Dirprwy Lywydd ychwanegol

Mae **adran 4** yn diwygio **adran 25 o Ddeddf 2006** i alluogi'r Senedd i **ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol**. Byddai gan y ddau Ddirprwy Lywydd yr un statws a rôl, ond gallai'r Dirprwy Lywydd ychwanegol gael ei ethol ar unrhyw adeg yn nhymor y Senedd a gallai ddal y swydd am gyfnod byrrach.

Mae'r adran hon hefyd yn gosod cyfyngiadau ar ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol o'r un grŵp gwleidyddol â'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd presennol. Yn unol â'r arfer presennol, gallai'r darpariaethau hyn gael eu trechu gan gynnig a gefnogir gan ddwy ran o dair o Aelodau'r Senedd sy'n pleidleisio o'i blaid.

### Cynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru

Mae **adran 5** yn diwygio **adran 51 o Ddeddf 2006** i gynyddu'r **cyfyngiad uchaf ar nifer Gweinidogion Cymru** o 12 i 17. Mae hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gynyddu'r cyfyngiad uchaf hwn ymhellach i 18 neu 19 drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan o leiaf dwy ran o dair o Aelodau o'r Senedd (gweithdrefn gadarnhaol). Pe cynyddid y cyfyngiad hwn i 18 neu 19, ni ellid ei ostwng.

### Anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd

Mae **adran 6** yn diwygio **Rhan 1 o Atodlen 1A i Ddeddf 2006** i ddarparu bod unigolion nad ydynt wedi eu cofrestru ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru **wedi eu hanghymhwyso rhag ymgeisio i gael eu hethol yn Aelodau o'r Senedd**.

### Adolygiad o'r posibilrwydd o rannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd

Mae **adran 7** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gyflwyno cynnig i **sefydlu pwyllgor Senedd i adolygu'r posibilrwydd o rannu swyddi penodol** yn y Senedd. Byddai angen cyflwyno'r cynnig hwn cyn gynted â phosibl, a heb fod yn hwyrach na chwe mis, ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyntaf y Senedd a gynhelir ar ôl 7 Tachwedd 2025.

Pe bai'n cael ei sefydlu, byddai'n ofynnol i'r pwyllgor lunio adroddiad ar yr adolygiad hefyd, gan nodi ei argymhellion. Os cyhoeddir yr adroddiad adolygu hwn, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ymateb i'r adroddiad a nodi'r camau y bydd yn eu cymryd, os o gwbl, mewn perthynas ag argymhellion yr adroddiad.

## Rhan 2 – Y system bleidleisio yn etholiadau cyffredinol y Senedd a dyrannu seddi

### Etholiadau Cyffredinol

Mae **adran 8** yn diwygio Deddf 2006 i ddisodli adrannau 6 i 9 er mwyn cyflwyno **system bleidleisio newydd ar gyfer etholiadau cyffredinol y Senedd**.

### Pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol

Mae'r **adran 6 newydd** o Ddeddf 2006 yn darparu y **caiff personau sydd â hawlogaeth i bleidleisio mewn etholiad cyffredinol mewn etholaeth i'r Senedd bleidleisio** naill ai:

- dros blaid wleidyddol gofrestredig sydd wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr i fod yn Aelodau o'r Senedd ar gyfer yr etholaeth, neu
- dros "ymgeisydd unigol" (annibynnol) sy'n sefyll dros yr etholaeth.

Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i orchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (y Gorchymyn Cynnal Etholiadau) ddarparu bod y papur pleidleisio a ddefnyddir yn etholaeth y Senedd yn cynnwys enwau'r ymgeiswyr sydd wedi'u henwebu ar gyfer yr etholaeth honno.

### Ymgeiswyr mewn etholiadau cyffredinol

Mae'r **adran 7 newydd** o Ddeddf 2006 yn darparu i **ymgeiswyr gael eu cyflwyno** ar gyfer etholaeth benodol i'r Senedd mewn etholiad cyffredinol. Mae'n darparu i bleidiau gwleidyddol cofrestredig gyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer etholaeth benodol i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol hyd at uchafswm o wyth o bobl. Mae'n gosod cyfyngiadau ar bobl sy'n cael eu cynnwys ar restr mwy nag un blaid wleidyddol (yn yr etholaeth hon neu mewn etholaeth arall) ac yn atal "ymgeisydd unigol" rhag ymddangos ar restr plaid wleidyddol hefyd.

### Cyfrifo a Dyrannu Seddi

Mae'r **adran 8 newydd** a'r **adran 9 newydd** o Ddeddf 2006 yn darparu ar gyfer **dyrannu seddi** i bleidiau gwleidyddol cofrestredig ac ymgeiswyr unigol ar gyfer etholaeth i'r Senedd mewn etholiad cyffredinol sy'n cymhwyso dull D'Hondt. I gael rhagor o wybodaeth am gymhwyso dull D'Hondt, gweler yr eirfa hon.

Mae'r **adran 8 newydd** yn darparu ar gyfer cyfrifo'r **"seat allocation figure" ("ffigur dyrannu seddi")**. Ar gyfer ymgeisydd unigol, mae'r Bil yn darparu mai'r ffigur hwn yw nifer y pleidleisiau a gafwyd gan yr ymgeisydd hwnnw. Yn achos plaid wleidyddol, dyma gyfanswm y pleidleisiau a gafwyd yn yr etholaeth honno, wedi ei rannu gan y "seat allocation divisor" ("rhannydd dyrannu seddi"). Bydd y rhannydd dyrannu seddi yn un i ddechrau.

Mae'r **adran 9 newydd** yn darparu i'r **sedd gyntaf ar gyfer etholaeth i'r Senedd gael ei dyrannu** i'r blaid wleidyddol gofrestredig neu'r ymgeisydd unigol sydd â'r ffigur dyrannu seddi uchaf (y nifer uchaf o bleidleisiau).

Yna mae'n darparu i'r ail sedd a'r seddi dilynol gael eu dyrannu i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol sydd â'r ffigur dyrannu seddi uchaf ar ôl iddo gael ei ail-gyfrifo. Byddai'r ail-gyfrifo hwn yn ychwanegu un at rannydd dyrannu seddi blaenorol plaid wleidyddol ar gyfer pob sedd y mae eisoes wedi ei hennill.

Mae'n darparu i'r seddi a ddyrannwyd i blaid wleidyddol gael eu llenwi gan yr ymgeiswyr ar ei rhestr yn y drefn y maent yn ymddangos. Unwaith y bydd sedd wedi ei dyrannu i ymgeisydd unigol, neu y bydd rhestr plaid wleidyddol wedi ei disbyddu, cânt eu diystyru wrth gymhwyso'r cyfrifiad ar gyfer dyrannu seddi.

Mae'r adran hon hefyd yn darparu ar gyfer sut y gellir torri cwlwm wrth gyfrifo'r ffigur dyrannu seddi.

### Seddi gwag

Mae **adran 9** yn diddymu **adran 10 o Ddeddf 2006** sy'n ymwneud â seddi gwag mewn etholaethau ac yn disodli **adran 11 o Ddeddf 2006** (seddi gwag mewn rhanbarthau etholiadol) i ddarparu ar gyfer **sut y byddai seddi yn y Senedd sy'n dod yn wag yn cael eu llenwi**.

Yn achos Aelod a etholwyd fel ymgeisydd unigol, mae'r adran hon yn darparu y byddai ei sedd yn parhau'n wag tan yr etholiad cyffredinol nesaf.

Os dychwelwyd Aelod o restr plaid wleidyddol gofrestredig, mae'r adran hon yn darparu i'r sedd wag gael ei llenwi gan y person cymwys a bodlon nesaf ar restr y blaid wleidyddol honno a gyflwynwyd yn yr etholiad cyffredinol diwethaf.

Os nad oes ymgeiswyr cymwys neu fodlon yn weddill ar restr plaid wleidyddol, byddai'r sedd yn parhau'n wag tan yr etholiad cyffredinol nesaf.

Mae'r darpariaethau hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ar gyfer llenwi seddi gwag ar gyfer Aelodau a etholwyd drwy'r rhestr ranbarthol.

### Diwygiadau Cysylltiedig

Mae **adran 10** yn gwneud **diwygiadau cysylltiedig i ddeddfwriaeth** sy'n codi o'r darpariaethau newydd yn Rhan 2 o'r Bil.

## Rhan 3 – Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

### Ailenwi Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

Mae **adran 11** yn newid **yr enw byr Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013** i Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013").

## Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Mae **adran 12** yn diwygio **adran 2 o Ddeddf 2013** i **newid enw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru** i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Mae **adran 13** yn diwygio **adran 4(1) o Ddeddf 2013** i **gynyddu nifer uchaf aelodau'r Comisiwn** o 5 i 9 (gan gynnwys y cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd) drwy ddarparu i o leiaf 1 ond dim mwy na 7 aelod ychwanegol gael eu penodi.

Mae **adran 14** yn diwygio **adran 4(3) o Ddeddf 2013** i osod **cyfyngiadau ar bersonau y gellir eu penodi** yn aelodau neu'n brif weithredwr y Comisiwn. Byddai'n atal deiliaid y swyddi canlynol rhag cael eu penodi:

- Aelod o ddeddfwrfa y DU (Senedd Cymru, Senedd y DU, Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon)
- Person a gymerir ymlaen o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau i gynorthwyo aelod o ddeddfwrfa yn y DU i gyflawni ei swyddogaethau
- Person a gymerir ymlaen gan blaid wleidyddol gofrestredig o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau
- Cynghorydd arbennig i unrhyw un o bedair llywodraeth y DU.

Mae **adran 15** yn diwygio **adran 6 o Ddeddf 2013** i ddarparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i **newid y cworwm** ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn. Ni all y pŵer hwn newid y cworwm i nifer sy'n is na'r terfyn presennol o 3 aelod.

Mae **adran 16** yn diwygio **adran 11 o Ddeddf 2013** i alluogi'r Comisiwn i **benodi un neu ragor o gomisiynwyr cynorthwyol** y caiff ddirprwyo ei swyddogaethau iddynt. Mae'r adran hon yn atal deiliaid y swyddi a ganlyn rhag cael eu penodi'n gomisiynydd cynorthwyol:

- Aelod o ddeddfwrfa y DU (Senedd Cymru, Senedd y DU, Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon)
- Person a gymerir ymlaen o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau i gynorthwyo aelod o ddeddfwrfa yn y DU i gyflawni ei swyddogaethau
- Person a gymerir ymlaen gan blaid wleidyddol gofrestredig o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau
- Cynghorydd arbennig i unrhyw un o bedair llywodraeth y DU.

Mae hefyd yn anghymwyso aelodau, comisiynwyr cynorthwyol a phrif weithredwr y Comisiwn rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd mewn etholiad i fod yn Aelod o'r Senedd.

## Rhan 4 – Adolygu Ffiniau Etholaethau'r Senedd

### Etholaethau'r Senedd ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2026

Mae **adran 17** yn cyflwyno **Atodlen 2** i'r Bil, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch **etholaethau'r Senedd i'w defnyddio i ethol Aelodau'r Senedd yn yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026**. Mae'n darparu i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru benderfynu beth fydd yr etholaethau hyn.

### Etholaethau'r Senedd ar gyfer etholiadau cyffredinol ar ôl 1 Ebrill 2030

Mae **adran 18** yn cyflwyno **Atodlen 3** sy'n mewnosod Rhan newydd 3A yn **Neddf 2013**. Mae'n gwneud darpariaethau ynghylch swyddogaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i **benderfynu ar etholaethau'r Senedd ar gyfer etholiadau cyffredinol a gynhelir ar ôl y set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 49J o Ddeddf 2013 ddod i rym**.

## Rhan 5 – Adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc. a darpariaethau cyffredinol

### Adolygiad o weithrediad Deddf etc. ar ôl etholiad cyffredinol 2026

Mae **adran 19** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gyflwyno cynnig i **sefydlu pwyllgor i adolygu gweithrediad Rhannau 1 a 2 o'r Bil**. Byddai angen cyflwyno'r cynnig hwn cyn gynted â phosibl, a heb fod yn hwyrach na chwe mis, ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026.

Byddai angen i'r cynnig gynnig bod pwyllgor yn cael ei sefydlu i adolygu gweithrediad ac effaith Rhannau 1 a 2 o'r Bil (y Senedd a'i Haelodau, nifer Gweinidogion Cymru, a'r system bleidleisio mewn etholiadau cyffredinol etc.) yn ogystal ag i ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bodoli yng Nghymru.

Pe bai pwyllgor yn cael ei sefydlu, byddai'n ofynnol iddo gwblhau adroddiad ar yr adolygiad heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026.

Os bydd y pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru

osod ymateb gerbron y Senedd.

## Darpariaethau Cyffredinol

Mae **adran 20** yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud unrhyw **ddarpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed** y maent yn ei hystyried yn briodol er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil neu unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan y Bil. Gellir defnyddio'r pŵer hwn i ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu'r deddfiad hwn neu unrhyw ddeddfiad arall, pryd bynnag y caiff ei basio neu ei wneud.

Mae **adran 21** yn rhoi **pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r terfynau** sy'n gymwys i wariant ymgyrch yr eir iddo gan neu ar ran plaid wleidyddol yn ystod etholiad cyffredinol y Senedd. Dim ond gyda chydsyniad y Comisiwn Etholiadol y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu arfer y pŵer hwn.

Mae **adran 22** yn darparu'r paramedrau y gall Gweinidogion Cymru eu defnyddio i **wneud rheoliadau o dan y Bil**, ac eithrio'r rhai a wneir o dan baragraff 9 o Atodlen 2. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau craffu'r Senedd sy'n gymwys i'r rheoliadau hynny.

Mae **adran 23** yn darparu **diffiniadau o dermau penodol** a ddefnyddir yn y Bil.

Mae **adran 24** yn darparu ar gyfer **darpariaethau trosiannol sy'n ymwneud â Rhannau 1 a 2 o'r Bil**. Mae'n darparu nad yw adrannau 1 a 2 (maint y Senedd ac etholaethau'r Senedd) a Rhan 2 (y system bleidleisio) yn cael effaith mewn perthynas ag etholiad cyffredinol a gynhelir ar neu cyn 6 Ebrill 2026; dychwelodd Aelod o'r Senedd mewn etholiad cyffredinol ar neu cyn y dyddiad hwn; neu dychwelodd Aelod o'r Senedd mewn etholiad cyffredinol neu fel arall.

Mae **adran 24(2)** yn darparu nad yw'r gofyniad yn adran 6 i gofrestru ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol yn gymwys i unrhyw Aelodau presennol o'r Senedd na'r rhai a ddychwelir drwy is-etholiad etholaethol neu o'r rhestr ranbarthol pan fo'r bleidlais yn cael ei chynnal ar neu cyn 6 Ebrill 2026. Ni fyddai'r gofyniad yn berthnasol ychwaith i ymgeiswyr sy'n sefyll mewn is-etholiad etholaethol ar neu cyn y dyddiad hwn.

Mae **adran 25** yn darparu i wahanol adrannau o'r Bil **ddod i rym** mewn trefn benodol unwaith y caiff y Cydsyniad Brenhinol.

Mae **adran 26** yn darparu mai **enw byr y Bil** pe bai'n cael ei ddeddfu fyddai Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024.

## Atodlen 1 - Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 3

Mae **Atodlen 1** yn gwneud **diwygiadau i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth** o ganlyniad i newid enw byr **Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013** ("Deddf 2013") a newid enw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

## Atodlen 2 – Etholaethau'r Senedd ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2026

Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch adolygu ffiniau cyn etholiad cyffredinol cyntaf y Senedd i'w gynnal ar ôl 6 Ebrill 2026.

### Pwrpas yr adolygiad

Mae **paragraff 1** yn nodi nad yw'r Atodlen hon ond yn gymwys i'r **etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026** ac unrhyw etholiadau cyffredinol dilynol sy'n digwydd cyn i reoliadau gael eu gwneud o dan adran 49J o Ddeddf 2013 gymryd effaith.

Mae **paragraff 2** yn nodi'r **hyn y mae rhaid i'r Comisiwn ei ystyried** yn yr adolygiad ffiniau hwn.

### Adolygiad ffiniau 2026

#### Paramedrau adolygu

Mae **paragraff 3** yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn **gyhoeddi hysbysiad** gan nodi pryd y mae ei adolygiad wedi dechrau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau'r adolygiad.

Mae **paragraff 4** yn nodi'r **materion y mae rhaid i'r Comisiwn eu hystyried** yn ei adolygiad. Mae'r rhain yn cynnwys ffiniau llywodraeth leol presennol, ystyriaethau daearyddol ac unrhyw glymau lleol (gan gynnwys clymau lleol sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg) a fyddai'n cael eu torri gan barau arfaethedig.

Mae **paragraff 5** yn ei **gwneud yn ofynnol i bob etholaeth Senedd gael un enw** i'w ddefnyddio yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni bai bod y Comisiwn o'r farn y

byddai hyn yn annerbyniol.  Mae'r paragraff hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff enw cyfrwng Cymraeg arfaethedig yr etholaeth a rhoi sylw i'r sylwadau a ddaw i law.

Os yw'r Comisiwn o'r farn y dylai etholaeth gael enwau gwahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae'n ofynnol cynnwys y ddau enw yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o adroddiadau'r Comisiwn.

## Adroddiadau a sylwadau

Mae **paragraff 6** yn nodi'r broses y mae rhaid i'r Comisiwn ei dilyn wrth **gyhoeddi ei adroddiad cychwynnol** ar adolygiad ffiniau 2026 a'r cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn.

Mae **paragraff 7** yn nodi'r broses y mae rhaid i'r Comisiwn ei dilyn wrth **gyhoeddi ei ail adroddiad** ar adolygiad ffiniau 2026 a'r ail gyfnod ar gyfer sylwadau.  Os yw'r Comisiwn yn awgrymu newidiadau i enw arfaethedig etholaeth Senedd, mae'n ofynnol iddo ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig.

Mae **paragraff 8** nodi'r broses y mae rhaid i'r Comisiwn ei dilyn wrth **gyhoeddi ei adroddiad terfynol**, yr hyn y mae rhaid iddo ei gynnwys ac y dylid ei gyflwyno i Weinidogion Cymru cyn 1 Ebrill 2025. Rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gael.

## Gweithredu'r adolygiad

Mae **paragraff 9** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru **wneud rheoliadau i roi effaith i adroddiad terfynol y Comisiwn** a'r amgylchiadau y mae rhaid gwneud y rhain. Rhaid gosod y Rheoliadau yn y Senedd, ond ni fyddai'n destun unrhyw weithdrefn graffu ffurfiol.

Mae **paragraff 10** yn caniatáu i'r **Comisiwn ofyn am newidiadau** i'r adroddiad terfynol i gywiro gwallau ar ôl iddo gael ei osod gerbron y Senedd ond cyn i reoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru.

## Amrywiol

Mae **paragraff 11** yn nodi bod modd **dirprwyo swyddogaethau adolygu ffiniau Senedd y Comisiwn** o dan **adran 13(1) o Ddeddf 2013**.

Mae **paragraff 12 yn gwahardd Gweinidogion Cymru rhag rhoi cyfarwyddiadau**

i'r Comisiwn o dan **adran 14 o Ddeddf 2013** mewn perthynas ag arfer swyddogaethau adolygu ffiniau Senedd y Comisiwn.

Mae **paragraff 13** yn darparu **diffiniadau penodol o dermau** a ddefnyddir yn yr Atodlen.

Mae **paragraff 14** yn darparu ar gyfer **sut y mae rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi ei ddogfennau**.

## Atodlen 3 - Rhan newydd 3A o Ddeddf 2013: Adolygu Ffiniau Etholaethau'r Senedd

Mae Atodlen 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch adolygiadau ffiniau i'w cynnal mewn pryd ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd Cymru 2030 ac ym mhob cyfnod dilynol o wyth mlynedd.

Mae **paragraff 1** o'r Atodlen yn mewnosod **Rhan newydd 3A yn Neddf 2013**.

### Pwrpas yr Adolygiad

Mae **adran newydd 49A** o **Ddeddf 2013** yn nodi bod rhaid i'r Comisiwn **gynnal adolygiad o ffiniau etholaethau'r Senedd unwaith bob wyth mlynedd**. Rhaid cynnal yr adolygiad cyntaf rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Tachwedd 2028, ac yna'r cyfnod o wyth mlynedd sy'n dechrau â 1 Rhagfyr 2028 a phob cyfnod dilynol o wyth mlynedd.

Mae **adran newydd 49B** yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn **gyhoeddi hysbysiad** gan nodi pa bryd y mae ei adolygiad wedi dechrau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau'r adolygiad.

Mae **adran newydd 49C** yn nodi'r **rheolau y mae rhaid i'r Comisiwn** eu dilyn wrth benderfynu ar yr 16 o etholaethau'r Senedd. Rhaid i bob etholaeth fod o fewn amrywiant o rhwng 90% a 110% o'r cwota etholiadol (cyfanswm yr etholaeth wedi ei rannu ag 16). Rhaid i'r Comisiwn roi sylw hefyd i ffiniau llywodraeth leol presennol, ystyriaethau daearyddol ac unrhyw glymau lleol (gan gynnwys clymau lleol sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg) a fyddai'n cael eu torri. Wrth wneud ei benderfyniad, rhaid i'r Comisiwn geisio lleihau maint y newid i'r etholaethau a rhoi sylw i'r anghyfleustra a achosir gan wneud y newidiadau hynny.

Mae **adran newydd 49D** yn darparu i'r Comisiwn ystyried **enwau etholaethau'r Senedd** fel rhan o'i adolygiad. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob etholaeth Senedd gael un enw i'w ddefnyddio yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni bai bod y Comisiwn

o'r farn y byddai hyn yn annerbyniol. Mae'r adran newydd hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff enw cyfrwng Cymraeg arfaethedig yr etholaeth a rhoi sylw i'r sylwadau a ddaw i law.

Os yw'r Comisiwn o'r farn y dylai etholaeth gael enwau gwahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae'n ofynnol cynnwys y ddau enw yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o adroddiadau'r Comisiwn.

Mae **adran newydd 49E** adran newydd 49F yn nodi'r broses y mae rhaid i'r Comisiwn ei dilyn wrth **gyhoeddi ei adroddiad cychwynnol** ar yr adolygiad ffiniau a'r cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn.

Mae **adran newydd 49F** yn nodi'r broses y mae rhaid i'r Comisiwn ei dilyn i **gyhoeddi ac ymgynghori ar y sylwadau a wnaed ar yr adroddiad cychwynnol** a'r amserlen ar gyfer yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau.

Mae **adran newydd 49G** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal o leiaf ddau ond dim mwy na phum **gwrandawiad cyhoeddus** fel rhan o'r ail gyfnod ar gyfer sylwadau. Mae'n darparu paramedrau i'r gwrandawiadau cyhoeddus hyn ddigwydd.

Mae **adran newydd 49H** yn darparu i'r Comisiwn **gyhoeddi ail adroddiad** ar yr adolygiad ffiniau a chynnal cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau. Os yw'r Comisiwn yn cynnig newidiadau i enw arfaethedig etholaeth Senedd, mae'n ofynnol iddo ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig.

Mae **adran newydd 49I** yn darparu i'r Comisiwn **gyhoeddi adroddiad terfynol** ar yr adolygiad ffiniau ac iddo gael ei anfon at Weinidogion Cymru. Os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r etholaethau, rhaid i'r adroddiad nodi ffiniau ac enwau holl etholaethau'r Senedd ac a yw pob un wedi'i dynodi'n etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad terfynol gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gael.

## Gweithredu'r Adolygiad

Mae **adran newydd 49J** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru **wneud rheoliadau i roi effaith i adroddiad terfynol y Comisiwn** o fewn chwe mis, a'r amgylchiadau y mae rhaid gwneud y rhain oddi tanynt.

Mae **adran newydd 49K** yn caniatáu i'r **Comisiwn ofyn am newidiadau** i'r

adroddiad terfynol i gywiro gwallau ar ôl iddo gael ei osod gerbron y Senedd ond cyn i reoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru.

Mae **adran newydd 49L** yn darparu ar gyfer **diffiniadau penodol o dermau** a ddefnyddir yn yr Atodlen ac yn nodi sut y mae rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi ei ddogfennau.

## Diwygiadau Cysylltiedig

Mae **paragraff 2** yn nodi'r **diwygiadau cysylltiedig** sy'n ofynnol o ganlyniad i ddarpariaethau'r Atodlen.

## Darpariaeth drosiannol

Mae **paragraff 3(1)** yn ei **gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru** wneud rheoliadau i nodi ffiniau etholaethau'r Senedd, enwau etholaethau'r Senedd a ph'un a ydynt yn etholaeth sirol neu fwrdeistrefol, ni waeth a yw adroddiad y Comisiwn yn nodi unrhyw newidiadau ai peidio.

Mae **paragraff 3(2)** yn nodi, hyd nes y gwneir y rheoliadau cyntaf o dan adran newydd 49J o Ddeddf 2013 (fel y'i mewnosodir gan yr Atodlen hon), **dylid darllen cyfeiriad at "etholaeth Senedd" fel un sy'n cyfeirio at y rhai a bennir yn yr adolygiad ffiniau a gynhelir cyn etholiad y Senedd 2026**.